

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Tal y Bont
ar nos Iau 12 Gorffennaf, 2018 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Evan Jones.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Myfanwy Jones a Wyn Bowen Harris.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2018.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'- dal i ddisgwyl Cyngor Gwynedd ddod i ymgymryd a'r gwaith. Pawb yn siomedig gyda'r oedi ac yn amlygu pryderon am yr Adran Priffyrdd i wneud gwaith sylfaenol i wasanaethu'r cyhoedd.

Rhwystrau cyflymder Tal y Bont- angen eu paentio gan eu bod yn anodd i'w gweld gyda'r nos. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

Cebl teleffon- adroddwyd bod cebl wedi disgyn ar hyd llwybr cyhoeddus rhwng Tan y Garth a Gerlan ac ei fod yn berygl i gerddwyr. Hefyd bod yna gebl ar y wal wrth Mignant. Adroddwyd bod BT wedi bod allan i'w gwneud yn ddiogel, ond bod y ceblau dal ar y wal.

Llwybrau cyhoeddus- y contractwr wedi cael rhestr o'r llwybrau sydd angen sylw.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

ROSPA-cae chwarae Talybont

£79.80

Arwyddwyd gan y Cadeirydd 13/09/18 _____

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- adroddiad diogelwch blynyddol yr offer yn cae chwarae Talybont. Un eitem angen sylw. Y Clerc i holi'r grŵp cymunedol am unrhyw waith papur/gwarant.

Cyflwynwyd- e-bost gan Un Llais Cymru-templed Rheolau Sefydlog 2018. Bydd angen mabwysiadu'r rheolau diweddaraf.

Cyflwynwyd-e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri-noson gyda Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref. Y Cyng. Kevin Williams, Alun Thomas a Dafydd Jones am fynychu.

Cyflwynwyd- llythyr gan Sian Gwenllian-ymateb i'n llythyr am y sefyllfa ar y Carneddau.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen- pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig a'r waith y Bartneriaeth.

Croeso Menai- neb wedi medru mynychu'r cyfarfod.

8. Y Mynydd

Trafodwyd y canlynol:

8.1 Angen cyngor gan y Panel ar y sefyllfa ar y Carneddau

8.2 Oes bosib ychwanegu rheol newydd i'r Rheolau Mynydd ynglŷn a talu ffi i ddod a wŷn dinod oddi ar y mynydd.

8.3 Angen diweddariad ysgrifenedig gan Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y sefyllfa ar y Carneddau.

8.4 Siom nad oedd ymateb wedi dod gan y Parc Cenedlaethol i'n llythyr am y sefyllfa ar y Carneddau.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/42/B

Marlow, Llanllechid

Dymchwel rhan o'r estyniad unllawr presennol ac adeiladu estyniad unllawr mwy.

Penderfyniad- Caniatwyd, gydag amodau

C18/0395/21/LL

Spinnies, Aber Ogwen, Bangor

Codi cuddfan adar a llwybr troed

Penderfyniad- Holl ymgynghoriadau drosodd.

Ceisiadau Cynllunio:

C18/0557/21/LL

1 Cap Coch, Tyddyn Cottage, Talybont, Bangor

Codi estyniad deulawr ochr gan gynnwys ymestyn a newid ffenestr gromen bresennol.

Penderfyniad- Dim gwrthwynebiad.

10. Materion Brys

Lôn Ddŵr-problem gyda gor-yrru ar waelod y ffordd sydd yn ardal 30mya. Cwynion gan bobl bron a cael eu taro lawr wrth groesi'r ffordd. Angen mesurau arafu traffig yno ac ymweliad gan yr Heddlu i fonitro.